# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Sir Gâr

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Sir Gâr i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Cyflawnodd Sir Gâr bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Gâr 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol ac mae'n un o bedwar awdurdod yn unig i gyrraedd y lefel hon.

Mae Sir Gâr wedi parhau i berfformio'n dda yn erbyn y fframwaith safonau yn ei ail flwyddyn. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi cynyddu ar y cyfan, gyda Sir Gâr yn cofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen o'r boblogaeth ar gyfer ymweliadau, aelodaeth a defnydd gan oedolion. Serch hynny, byddai mwy o ystyriaeth yn y datganiad i'r ffactorau sy'n sail i'r amrywiadau o ran defnydd yn ei helpu i ddeall y goblygiadau i berfformiad yn y dyfodol. Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i fuddsoddi'n gryf yn y gwasanaeth, gyda chynlluniau i ymestyn y fenter Stordy Creadigol lwyddiannus i ddwy lyfrgell arall, a datblygu ei ddarpariaeth llyfrgell deithiol newydd ymhellach, yn unol â dyheadau ei Strategaeth Llyfrgelloedd.

- Cyflwynodd Cyngor Sir Gâr bedair astudiaeth achos yn dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth ar ei gymunedau lleol.
- Mae lefelau defnydd wedi cynyddu yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda Sir Gâr yn cofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen o'r boblogaeth ar gyfer ymweliadau ffisegol a rhith-ymweliadau, aelodaeth llyfrgell, a llyfrau i oedolion a fenthycir.
- Erys buddsoddiad mewn deunyddiau darllen cyfredol yn gryf, gyda Sir Gâr yn un o bum gwasanaeth yn unig sydd bellach yn bodloni gofynion DA 9, ac mae'n parhau i gofnodi'r gwariant mwyaf ar gaffael eitemau gan unrhyw wasanaeth llyfrgell yng Nghymru.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu ychydig, ond maent yn dal yn is na lefel y targed; mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran staff cymwysedig, sef un o chwe awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu unwaith eto yn 2018/19, gyda Chyngor Sir Gâr yn parhau i fuddsoddi'n briodol yn ei ddarpariaeth llyfrgell.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Gâr yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn. Erys partneriaethau yn rhan annatod o'r gwaith o hyrwyddo a darparu gwasanaethau, wrth wireddu'r weledigaeth a nodwyd yn Strategaeth Llyfrgelloedd 2017-22 y gwasanaeth.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Sir Gâr yn cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| d) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | ✔ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | ✔ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | ✔ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | ✔ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | ✔ | |
| DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Cyflawni'n llawn |
| Derbyniadau y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg | ✔ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth | x | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | ✔ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod | ✔ | |
| b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod | ✔ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff y pen o'r boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth | ✔ | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |
| iv) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth | ✔ | Cyflawni'n llawn |

Mae gwasanaeth Sir Gâr wedi cynnal ei berfformiad yn yr ail flwyddyn hon o'r chweched fframwaith, heb unrhyw newid sylweddol o gymharu â 2017/18, ac erys yn un o'r awdurdodau sy'n cyflawni orau ar y cyfan. Fodd bynnag, byddai sylwadau manylach yn y datganiad yn helpu i egluro'r ffactorau sy'n dylanwadu ar amrywiadau o ran defnydd a pherfformiad.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd gwasanaeth Sir Gâr ei arolwg o ddefnyddwyr i blant ym mis Hydref 2017 ac nid yw wedi cynnal arolwg i oedolion o dan y fframwaith hwn eto.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 96% | *=3/13* | 60% | 94% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | dd/b | | 38% | 88% | 95% |
| DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 98% | *=7/20* | 80% | 97% | 100% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Sir Gâr bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Clwb Gwnïo – clwb gyda'r hwyr, yn defnyddio adnoddau'r llyfrgell a pheiriannau gwnïo, gyda chymorth staff y llyfrgell, gydag aelodaeth amrywiol o oedran a gallu gwahanol. Mae'r clwb yn cynnig gweithgarwch cymdeithasol gwerthfawr lle y gall aelodau hŷn drosglwyddo sgiliau, gan ennyn hyder a hunan-barch, a gall aelodau iau ddysgu mewn amgylchedd ymlaciol. Mae'r adborth yn dangos y buddiannau cymdeithasol a'r buddiannau o ran llesiant sy'n gysylltiedig â mynychu'r clwb.
- Gwasanaethau Teithiol – buddiannau gwasanaeth partneriaeth sy'n cyfuno llyfrgell deithiol a'r Hwb, gan gyflwyno adnoddau llyfrgell a gwasanaethau cymorth i gymunedau mwy anghysbell. Mewn rhai ardaloedd, mae'r ymweliadau teithiol wedi dod yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol llawnach, e.e. clybiau paned lleol. Yn achos un fam ifanc, mae'r gwasanaeth cyfun yn golygu ei bod yn gallu defnyddio'r llyfrgell, cael cyngor a chymorth, a chwrdd ag eraill o'r ardal yn gymdeithasol.
- Ymweliadau Canolfannau Dydd – yn gweithio gyda Chanolfan Ddydd i oedolion ag anableddau dysgu sydd bellach yn ymweld â Llyfrgell Rhydaman ddwywaith yr wythnos ar gyfer sesiynau Stordy Creadigol gyda chymorth staff y llyfrgell. Mae sesiynau straeon rhyngweithiol wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran meithrin

hunanymwybyddiaeth, annibyniaeth a hunan-barch. Yn achos un unigolyn mae'r sesiynau wedi ei helpu i ennyn hyder ac ymgysylltu â gweddill y grŵp.

- Cynhwysiant Digidol – gan weithio gyda phartneriaid mae'r gwasanaeth yn cynnig sesiynau cymorth digidol am ddim mewn rhai llyfrgelloedd cangen, lle mae'r rhai sy'n dod yn gallu dysgu sgiliau newydd a chael hyfforddiant ar-lein am ddim. Yn achos un cwpl hŷn, mae'r sesiynau wedi eu helpu i ddefnyddio llechen i gyfathrebu ar-lein â theulu a ffrindiau a dod o hyd i adnoddau a gwybodaeth. Roedd y sesiynau hefyd yn gyfle iddynt wneud ffrindiau newydd, ac yn fodd i gyflwyno amrywiaeth eang o ddosbarthiadau a chyfleoedd dysgu ar-lein iddynt.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Gâr ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau.
Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2017/18* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | dd/b | | 24% | 82% | 96% | *86%* |
| c) iechyd a lles | dd/b | | 33% | 62% | 94% | *85%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | dd/b | | 90% | 97% | 100% | *98%* |
| DA 2 – Boddhad cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 5]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | dd/b | | 81% | 91% | 98% | *90%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 93% | 99% | 100% | *95%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | dd/b | | 65% | 91% | 95% | |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol | dd/b | | 93% | 97% | 99% | *95%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.1 | *=9/13* | 8.5 | 9.3 | 9.5 | *8.7* |
| DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | |
| a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth | 57 | *4/22* | 13 | 30 | 208 | *60* |
| c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth | 272 | *8/22* | 15 | 199 | 433 | *473* |
| DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth | 327 | *8/22* | 91 | 295 | 689 | *245* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 6,524 | *2/22* | 2,596 | 3,969 | 7,170* | *6,137* |
| b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth | 1,627 | *3/22* | 345 | 885 | 2,205 | *1,539* |
| c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth | 89 | *20/22* | 58 | 150 | 251 | *155* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth[2] | 636 | *11/22* | 95 | 602 | 1,424 | *575* |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth[3] | 11 | *7/22* | 5 | 10 | 14 | *12* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 25% | *=11/22* | 14% | 25% | 63% | *20%* |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 17 | *18/21* | 3 | 30 | 214 | *16* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 1,530 | *11/21* | 90 | 1,477 | 9,806 | *1,206* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth | £19,449 | *1/22* | £7,181 | £12,145 | £19,449 | *£17,771* |
| b) % ar staff | 47% | *22/22* | 47% | 62% | 78% | *48%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 13% | *=10/22* | 8% | 13% | 21% | *14%* |
| % ar offer ac adeiladau | 3% | *17/22* | 0.4% | 4% | 25% | *3%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 37% | *1/22* | 0.3% | 16% | 37% | *34%* |
| c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth | £7,044 | *2/22* | £0 | £467 | £8,829 | *£0* |
| DA 15 – Cost net am bob ymweliad | £1.29 | *20/22* | £1.18 | £1.82 | £2.52 | *£1.25* |
| DA 16 – Oriau agor[4] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.04% | *17/22* | 0.00% | 0.00% | 0.25% | *0.06%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.64% | *13/20* | 0.00% | 0.28% | 7.99% | *2.95%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân*
*[2] fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo*
*[3] fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl [4] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd gwasanaeth Sir Gâr ei arolwg o ddefnyddwyr i blant yn 2017, ond nid yw wedi cynnal arolwg i oedolion o dan y fframwaith hwn eto. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles hefyd. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu ymlaen llaw wedi lleihau ychydig yn 2018/19, gan adlewyrchu'r ffaith bod rhannau o Lyfrgell Caerfyrddin wedi cael eu cau ar gyfer gwaith adnewyddu yn ystod y cyfnod, ond maent yn dal yn uchel yn ôl y pen o'r boblogaeth. Mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi parhau i leihau'n sylweddol, ond maent yn dal uwchben y lefel ganolrifol – a byddai'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn yn haeddu cael eu hystyried ymhellach.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Gâr yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, drwy ei rwydwaith o lyfrgelloedd rhanbarthol, cymunedol a theithiol a llyfrgelloedd cangen. Darperir digwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob prif fan gwasanaeth, ac mae'r niferodd sy'n mynychu digwyddiadau yn y llyfrgell

wedi parhau i wella, yn unol â'r gwasanaethau teithiol a Stordy Creadigol ychwanegol a gynigir. Mae lefelau defnydd wedi cynyddu mewn meysydd eraill hefyd yn 2018/19, gyda Sir Gâr yn cofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen o'r boblogaeth ar gyfer ymweliadau ffisegol a rhith-ymweliadau, aelodaeth llyfrgell, a llyfrau i oedolion a fenthycir. Fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi lleihau ers 2017/18, gan adlewyrchu newidiadau i'r system wrth i'r gwasanaeth baratoi i symud i'r system rheoli llyfrgelloedd i Gymru gyfan, ac mae nifer y llyfrau i blant a fenthycir hefyd wedi lleihau ac, mewn gwrthgyferbyniad â defnydd mewn meysydd eraill, mae ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nodir bod problemau gyda systemau o bosibl yn effeithio ar y broses o gofnodi llyfrau i blant a fenthycir, ac mae'r gwasanaeth yn mynd ati i ystyried mesurau i wella perfformiad yn y maes hwn.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[i]

Er bod gwariant ar ddeunyddiau wedi gostwng ychydig yn 2018/19, mae'r awdurdod yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn deunyddiau darllen cyfredol, gan barhau i wario mwy ar gaffael eitemau y pen o'r boblogaeth nag unrhyw wasanaeth llyfrgell arall yng Nghymru. Mae dyraniadau cyllid ar gyfer adnoddau i blant a deunyddiau Cymraeg hefyd wedi cynyddu, gan wella perfformiad yn y meysydd hyn, ac mae DA 9 a 10 yn cael eu cyflawni'n llawn. Mae'r buddsoddiad hwn yn parhau i gael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn nifer yr adnoddau Cymraeg a fenthycir. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi gostwng ychydig, yn sgil cau'r ystafell TG yn Llyfrgell Caerfyrddin yn ystod gwaith adnewyddu, ond mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi gwella ers 2017/18. Mae perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau wedi parhau ar yr un lefel fwy neu lai a pharheir i fodloni gofynion DA 12.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu ychydig yn 2018/19, ond mae'r gwasanaeth yn methu â chyflawni'r targed ar gyfer staff y pen o'r boblogaeth o hyd. Mae nifer y staff cymwysedig wedi parhau ar lefelau 2017/18, gyda Sir Gâr yn un o chwe awdurdod yn unig i gyflawni'r targed a bennwyd yn y maes hwn. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi yn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y staff, a hynny ar lefel well, gydag ymrwymiad i hyfforddiant a mentora staff yn Gymraeg, sydd i'w groesawu. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu ychydig hefyd, gyda 17 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 90 awr yr un i'r gwasanaeth ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu yn 2018/19, gyda Sir Gâr yn cofnodi'r gwariant uchaf y pen o'r boblogaeth ar ddarpariaeth llyfrgell, sef buddsoddiad a adlewyrchir mewn lefelau mynediad a defnyddio uchel. Mae'r oriau agor wedi cynyddu ychydig hefyd, ac mae'r targed o ran hyn bellach yn cael ei gyflawni o bell ffordd, gydag oriau agor heb staff estynedig yn cael eu cynnig mewn dau fan gwasanaeth.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae naratif cyngor Sir Gâr yn canolbwyntio unwaith eto ar wireddu ei weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, gan nodi'r ffordd y mae hyn yn mynd i'r afael â'r Cynigion Cyffredin sydd hefyd yn cysylltu â pholisi'r Llywodraeth. Mae rôl allweddol partneriaethau yn amlwg yn y gwaith o gyflawni yn erbyn nifer o flaenoriaethau strategol – hyrwyddo darllen, cefnogi'r

agenda ddigidol a dysgu gydol oes, a chyfrannu at iechyd a lles cymunedau lleol. Fodd bynnag, byddai cyfeiriadau mwy penodol at flaenoriaethau a nodau Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o dystiolaeth o'i gyfraniad.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Sir Gâr yn nodi cynlluniau i ymestyn y fenter Stordy Creadigol lwyddiannus yng Nghaerfyrddin a Llanelli. Cyfeirir at ddatblygiadau pellach yn y gwasanaeth llyfrgell deithiol newydd, gan weithio gyda phartneriaid newydd a chyflwyno darpariaeth ar ddydd Sadwrn / gyda'r hwyr er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Bwriedir hefyd adolygu'r ffordd y gellir gwella mynediad i lyfrgelloedd cangen, gan weithio gyda phartneriaid, a thrwy dechnolegau hunanwasanaeth newydd. Nodir y gwaith adnewyddu yn Llyfrgell Caerfyrddin a chyflwyno gwasanaethau Cyfeirio ac Archif unedig fel datblygiad parhaus allweddol.

## 6 Casgliad

Mae Sir Gâr wedi parhau i berfformio'n dda yn erbyn y fframwaith safonau yn ei ail flwyddyn. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi cynyddu ar y cyfan, gyda Sir Gâr yn cofnodi rhai o'r perfformiadau uchaf y pen o'r boblogaeth ar gyfer ymweliadau, aelodaeth a defnydd gan oedolion. Serch hynny, byddai mwy o ystyriaeth yn y datganiad i'r ffactorau sy'n sail i'r amrywiadau o ran defnydd yn ei helpu i ddeall y goblygiadau i berfformiad yn y dyfodol. Mae'r awdurdod hefyd yn parhau i fuddsoddi'n gryf yn y gwasanaeth, gyda chynlluniau i ymestyn y fenter Stordy Creadigol lwyddiannus i ddwy lyfrgell arall, a datblygu ei ddarpariaeth llyfrgell deithiol newydd ymhellach, yn unol â dyheadau ei Strategaeth Llyfrgelloedd.

---

[i]Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.